# Caplan Gwasanaeth

### Ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru
### Gwirfoddolwr, 4 awr yr wythnos

Rydym yn awyddus i benodi tîm o Gaplaniaid Gwasanaeth i gefnogi lles gweithwyr y Gwasanaeth a'u teuluoedd ar draws ardal Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru (Ynys Môn, Gwynedd, Conwy, Sir Ddinbych, Sir y Fflint a Wrecsam).

Bydd yr ymgeiswyr llwyddiannus yn cyfrannu at ddarparu gofal caplaniaeth o ansawdd uchel i weithwyr a'u teuluoedd lle bo angen, yn aml yn delio â sefyllfaoedd emosiynol iawn fel rhan o dîm o Gaplaniaid sy'n gweithio ar draws ardal y Gwasanaeth i ddarparu gwasanaeth effeithlon ac empathig.

Byddwch yn gyfathrebwr effeithiol, gyda'r gallu i ddadansoddi a defnyddio'ch menter eich hun mewn sefyllfaoedd sydd weithiau'n llawn emosiynau. Byddwch hefyd yn meddu ar sgiliau trefnu da i reoli eich llwyth gwaith eich hun, a bydd angen i chi fod yn hyblyg a gallu addasu i newid er mwyn ymdrin â cheisiadau wrth iddynt godi a gallu gweithio'n annibynnol. Yn ddelfrydol bydd gennych y gallu i gyfathrebu'n hyderus ac yn rhugl yn y Gymraeg, ond byddwn yn ystyried ceisiadau gan unigolion sydd wedi ymrwymo i wella eu sgiliau Cymraeg gyda chefnogaeth y Gwasanaeth.

Bydd y tîm wedi'i leoli ar draws ardal y Gwasanaeth, ond lle bo'n bosibl byddwch yn darparu gwasanaethau caplan yn eich ardal leol. Gall y rôl hefyd olygu rhoi cymorth i feysydd eraill o'r Gwasanaeth ac felly efallai y bydd angen rhywfaint o deithio o fewn ardal y Gwasanaeth, gydag ad-daliad am gostau teithio.

Noder bod y swydd hon yn amodol ar wiriadau cyn cyflogi gan gynnwys Gwiriad DBS, prawf Cyffuriau ac Alcohol a geirdaon boddhaol. Os ceir datgeliad cadarnhaol (wedi'i ddisbyddu neu heb ei ddisbyddu) ar y DBS, bydd dull sy'n seiliedig ar risg o reoli'r wybodaeth yn cael ei fabwysiadu gan y Gwasanaeth ac yna gwneir penderfyniad rhesymol a chymesur ynghylch y gweithiwr presennol neu'r darpar weithiwr. Gellir dod o hyd i fwy o wybodaeth yma.

I gael rhagor o fanylion am y rôl, cysylltwch â Lee Bridge, Cynghorydd Ffitrwydd Iechyd a Lles ar 01745 535254.

I wneud cais, cwblhewch eich pecyn ymgeisio a'i e-bostio i: recruitment@northwalesfire.gov.wales

**Mae hwn yn gyfle parhaus i ymuno â Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, fodd bynnag, efallai y bydd y cyfnod recriwtio yn cau os yw'n ddibynnol ar anghenion y Gwasanaeth.**

disability confident EMPLOYER

HYRWYDDO CYNHWYSIANT helpu cael gwared ar rwystrau
PROMOTING INCLUSIVITY helping to remove barriers

ARMED FORCES COVENANT CYFAMOD Y LLUOEDD ARFOG
EMPLOYER RECOGNITION SCHEME CYNLLUN CYDNABOD CYFLOGWYR
GOLD AWARD 2022 GWOBR AUR 2022

Live Fear Free Helpline
0808 80 10 800
call • text • live chat • email
Home shouldn't be a place of fear
Help is available 24/7

Cefnogwyr Pride Tân
Fire Pride Allies

safecall
Llinell Gymorth Gyfrinachol i Weithwyr

Rydym yn gyflogwr cyfle cyfartal ac yn croesawu ceisiadau gan bob rhan o'r gymuned. Rydym wedi ymrwymo i roi cyfle cyfartal i'r holl staff ac yn annog ceisiadau gan unigolion beth bynnag eu sefyllfa o ran oedran, anabledd, rhyw, ailbennu rhywedd, cyfeiriadedd rhywiol, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred a phriodas a phartneriaethau sifil.
Rydym yn croesawu gohebiaeth a galwadau yn y Gymraeg a'r Saesneg a byddwn yn ymateb yn gyfartal i'r ddau ac yn ateb yn eich dewis iaith heb oedi. Ni fydd cais a gyflwynir yn y Gymraeg yn cael ei drin yn llai ffafriol na chais a gyflwynir yn Saesneg.

*Cedwir at y dyddiad cau yn llym ac ni fydd unrhyw eithriadau.*